Animal & Plant Health Agency

# National Bee Unit

## Mentora er mwyn sicrhau gwell iechyd gwenyn

## December 2023

“Tell me and I forget, teach me and I may remember, involve me and I learn” (Benjamin Franklin).

Mae mentora yn arf pwerus a ddefnyddir mewn llawer o amgylcheddau dysgu a datblygu. Gall wella profiad gwenynwyr, yn enwedig yn ystod eu blynyddoedd cyntaf. Gall mentor helpu drwy wneud y canlynol:

- bod yn seinfwrdd i wenynwyr newydd – gwrando ar eu profiadau a thrafod pryderon ac opsiynau triniaeth â synnwyr cyffredin
- cyfeirio gwenynwyr at enwau cyswllt i roi gwybod am glefydau hysbysadwy, gwybodaeth ddefnyddiol sydd ar gael ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol, llyfrau ar wenyna ac at gyfleoedd hyfforddiant defnyddiol.
- rhoi cyngor ar faterion hwsmonaeth a gwenynyddiaeth
- rhoi cyfleoedd i wenynwyr newydd ddysgu sgiliau hwsmonaeth newydd a magu hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn eu gwenynfa eu hunain
- annog arferion da a herio arferion gwael mewn ffordd sensitif, gan esbonio'r problemau y gallai arfer o'r fath eu hachosi
- cau'r bwlch mewn sgiliau er mwyn helpu'r gwenynwyr newydd i wneud cynnydd da tuag at y lefel a gyrhaeddir ar ôl blynyddoedd o brofiad

Mae pob cymdeithas cadw gwenyn yn unigryw. Bydd gan rai nifer o wenynwyr profiadol sy'n gallu rhoi o'u hamser, bydd gan eraill fwy o ddechreuwyr nag y gall y gymdeithas eu helpu drwy fentora un i un. Nod y ddogfen hon yw cynnig amrywiaeth o opsiynau mentora a chymorth y gall grwpiau cadw gwenyn eu defnyddio i ddatblygu rhaglen fentora/rhaglen gymorth neu opsiynau y gellid eu hychwanegu at raglen sy'n bodoli eisoes. Mae'r fframwaith hwn yn cynnig opsiynau i grwpiau hyd yn oed pan fydd prinder gwenynwyr profiadol sy'n gallu rhoi o'u hamser i fod yn fentor.

Mae datblygiadau ym maes technoleg wedi ehangu'r opsiynau sydd ar gael i fentora dros y degawd diwethaf. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol at ddibenion addysg a chymorth bellach wedi ymwreiddio yn ein diwylliant. Gall cymdeithasau fanteisio ar hynny i annog a hysbysu gwenynwyr newydd a chynnig opsiwn i roi cymorth lle mae rhaglen fentora draddodiadol y tu hwnt i gyrraedd y gymdeithas neu nad yw'n addas i wenynwyr newydd. Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi dod â llawer o fanteision newydd, ond un anfantais yw eu bod hefyd yn rhoi mynediad at gyngor a safbwyntiau amheus i wenynwyr newydd neu wybodaeth nad yw'n berthnasol i wenynwyr yn y DU.

**Prosiect Gwyddor Gymdeithasol**

Yn 2021, comisiynwyd prosiect gwyddor gymdeithasol i helpu i ddatblygu'r Cynllun Gwenyn Iach 2030 newydd. Roedd yr adroddiad yn cwmpasu profiad gwenynwyr a'u dymuniad i gael cymorth yn ystod eu blynyddoedd cynnar. Dywedodd dros draean o'r rhai a ymatebodd i arolwg y prosiect nad oeddent wedi mynd i ddiwrnod rhagflas nac wedi gweithio gyda mentor. O'r rhai a oedd wedi gwneud hynny, roedd 75% yn teimlo bod y profiad yn rhoi dealltwriaeth fwy realistig iddynt ynglŷn â'r gofynion a'r heriau sy'n gysylltiedig â chadw gwenyn.

Canfu'r prosiect hefyd fod y gwenynwyr a oedd wedi cael eu mentora yn teimlo eu bod wedi cael cyngor amhrisiadwy gan eu mentor a'u bod yn fwy tebygol o barhau i gadw gwenyn.Yn y cyfweliadau i gyd-fynd â'r prosiect, roedd pwysigrwydd mentora hefyd yn un o'r canfyddiadau allweddol. Nid oedd y rhan fwyaf o'r gwenynwyr a gyfwelwyd yn teimlo eu bod wedi cyflawni eu nodau ond y gallai rhaglen fentora neu brentisiaeth fod wedi eu helpu i gyflawni eu nodau.

Roedd rhwydwaith gwenyna hefyd yn ffynhonnell allweddol o gyngor i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg – cysylltiadau yn y gymdeithas wenyna leol oedd y prif rwydwaith a oedd yn cael ei ddefnyddio a nododd llawer eu bod wedi cael cryn dipyn o gymorth gan eu cymdeithas leol.

Roedd mentoriaid yn cael eu hystyried yn arbennig o werthfawr o ran cynnig cymorth technegol a phersonol a chyngor technegol ar hwsmonaeth gwenyna.

**Esboniad**

Mae mentora llwyddiannus yn ymwneud â'r gydberthynas – ni fydd pob partneriaeth fentora yn llwyddo ac ni ddylid ystyried un methiant yn arwydd o ganlyniadau yn y dyfodol.

Mae gan grwpiau gwenyna gymarebau gwahanol o wenynwyr newydd a phrofiadol felly ni fydd un fframwaith yn gweithio i bawb. Efallai na fydd y grŵp yn gallu cynnig opsiwn “delfrydol” ond ni ddylai hynny ei atal rhag ceisio cynnig rhaglen lai uchelgeisiol.

Efallai y bydd gwahaniaethau o ran faint o amser y gall gwenynwyr newydd a darpar fentoriaid ei neilltuo felly ni fydd un ateb yn gweithio hyd yn oed o fewn yr un grŵp. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y ddau barti yn rhannu'r un disgwyliad o ran yr ymrwymiad amser disgwyliedig.

Mae meddalwedd a chymwysiadau sydd wedi'u dylunio'n arbennig i fentoriaid ar gael i helpu i gysylltu mentoriaid â menteion a gall y rhain helpu i gydlynu gweithgarwch, monitro lefelau ymgysylltu a gwerthuso cynlluniau.

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar wenynwyr newydd yn bennaf ond gallai gwenynwyr mwy profiadol ddefnyddio mentora i fynd i'r afael â her benodol. Gallai rhywfaint o'r wybodaeth yma fod yn ddefnyddiol yn y sefyllfa hon hefyd.

**Awgrymiadau mentora**

- **dylid bod â meddwl agored** ynglŷn â'ch partner – mae ymchwil yn dangos bod y cydberthnasau mentora mwyaf cynhyrchiol yn tueddu i fod rhwng pobl â chefndiroedd a phersonoliaethau gwahanol.
- **dylid pennu nod** – gwnewch yn siŵr bod yna reswm i'r ddau ohonoch roi'ch amser tuag at hyn.
- **dylid gosod rhai rheolau sylfaenol** – amlinellwch pa mor aml y byddwch yn cyfarfod/cyfathrebu, pa fathau o bethau y byddwch yn eu trafod ac am faint y bydd y gydberthynas yn para yn eich tyb chi.
- **dylid cymryd amser eich gilydd o ddifrif** – dylid paratoi ar gyfer eich cyfarfodydd a chwblhau unrhyw dasgau y cytunwyd arnynt cyn y cyfarfod nesaf; dylid osgoi bod yn hwyr ac aildrefnu cyfarfodydd
- **dylech herio'ch gilydd** – ni fydd y naill na'r llall yn cael budd os na fydd y sesiwn yn ymestynnol i chi o ran canfyddiadau a syniadau; byddwch yn barod i gael rhai trafodaethau agored, gonest a chynhyrchiol
- **dylid gwrando** – gwrando gweithredol yw'r arf mwyaf defnyddiol i'r mentor a'r mentai fel ei gilydd o ran sicrhau bod y sesiynau yn ystyrlon ac yn effeithiol
- **dylid myfyrio ar y broses** – gwerthuswch sut mae'r gydberthynas wedi bod yn fuddiol i chi hyd yma, ac ystyriwch a oes angen cyflwyno rhai nodau newydd i'r bartneriaeth, er mwyn iddi barhau i fod yn ddefnyddiol
- **dylid gorffen yn dda** – ar ryw adeg, bydd angen i'ch partneriaeth ddod i ben; gwnewch yn siŵr bod hyn yn cael ei gynllunio ymlaen llaw a'i reoli mewn ffordd agored a chadarnhaol

Mae pwyntiau i'w hystyried wrth ddechrau trefniant mentora yn yr Atodiad a gall fod yn ddefnyddiol i chi fynd drwyddynt gyda'ch gilydd.

**Enghreifftiau**

Mae'r adran hon yn cynnig rhai modelau mentora – nid yw'r gweithgarwch o dan bob adran wedi'i gyfyngu i'r model hwnnw yn unig a gall grwpiau ddewis a dethol elfennau ar gyfer eu rhaglen fentora. Mae pob cymdeithas/grŵp yn unigryw, a hefyd y partneriaethau mentora unigol, felly ni fydd un model yn addas i bob grŵp.

**Model traddodiadol**

Un gwenynwr newydd i un gwenynwr profiadol. Byddant yn cyfarfod mewn gwenynfa (gwenynfa'r mentor, y mentai neu'r gymdeithas). Bydd y mentor yn treulio amser yn esbonio gwahanol agweddau ar y grefft. Dros amser, bydd y mentai yn cynorthwyo ac yna'n ymgymryd â rhai agweddau ar yr hwsmonaeth yn ystod ymweliad. Gallai'r model hwn gynnwys prynu nythfa o wenyn neu fagu brenhines newydd.

Manteision – mae'n hyblyg a dyma'r model hawsaf i'w addasu at anghenion y gwenynwr newydd. Mae'n debygol o arwain at y dull mwyaf ymatebol ac ymarferol gan y mentor.

Anfanteision – gall fynd â llawer o amser ac adnoddau;  mae'n fwy tebygol o fethu os na chaiff disgwyliadau'r naill barti na'r llall eu bodloni (gall cytundeb anffurfiol liniaru hyn (gweler y rhestr wirio)).

**Model rhithwir**

Mae'r mentor yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol/negeseuon testun/ap negeseua grŵp i gefnogi ac annog gwenynwr/gwenynwyr newydd. Gall y mentor roi cyngor ar hwsmonaeth a phroblemau iechyd drwy fideo neu ffotograffau. Gall y mentor ymateb i bryderon a chyfeirio mentai at wybodaeth arall a rhoi sicrwydd a chymorth emosiynol. Os bydd pawb dan sylw yn byw'n lleol, gallai hyn gynnwys rhywfaint o brofiad ymarferol, oherwydd gallai cyfleoedd i arsylwi neu helpu gwenynwr arall gael eu hysbysebu yn y grŵp.

Manteision – mae'n haws ei addasu yn unol â chyfyngiadau amser a gall cwestiynau/ymatebion gael eu trefnu yn unol ag ymrwymiadau eraill. Gallai un gwenynwr profiadol roi cymorth i unigolyn neu grŵp bach o wenynwyr newydd. Mewn grŵp, gallai'r gwenynwyr newydd gael budd o gymorth gan gymheiriaid yn ogystal â chymorth gan y mentor. Ni fydd pellter yn rhwystr felly gall y dull gweithredu hwn fod yn addas i gymdeithas sy'n ymestyn dros ardal ddaearyddol fawr.

Anfanteision – er y gellir cynnwys rhywfaint o gymorth ymarferol, nid yw'n cynnig y profiad ymarferol y gall mentora o amgylch cwch gwenyn ei gynnig. Bydd profiad llai penodol i wenynwyr newydd.

**Model gyd-gymorth**

Os bydd mwy o wenynwyr newydd na nifer y mentoriaid sydd ar gael, gallai'r gymdeithas ffurfio grŵp cyd-gymorth i garfan newydd o wenynwyr (carfannau fwy na thebyg o gwrs i wenynwyr newydd). Gall y gwenynwyr newydd hyn drafod y materion y maent yn eu hwynebu, cynnal archwiliadau gyda'i gilydd a thrafod opsiynau o ran triniaeth. Gallai gwenynwr profiadol fod ar gael i roi cymorth i'r grŵp.

Manteision – mae'n diwallu'r angen am gymorth emosiynol yn wyneb heriau. Mae pawb wedi cyrraedd yr un man ar eu taith tuag at fod yn wenynwyr. Gallai roi cymorth hirdymor (teimlwyd bod diffyg cymorth i wenynwyr canolraddol yn yr astudiaeth gwyddor gymdeithasol felly gallai hyn fynd i'r afael â'r mater hwn).

Anfanteision – heb gymorth gwenynwr profiadol, efallai na fydd y grŵp yn datrys problem ac yn digalonni neu'n mabwysiadu ymarfer anaddas.

**Model pyramid**

Gallai nifer bach o wenynwyr newydd gael eu cefnogi gan wenynwr canolraddol a allai, yn ei dro, droi at wenynwyr mwy profiadol am gyngor ar broblemau mwy cymhleth. Mae hyn yn cynnig llwybr datblygu i ddarpar fentoriaid newydd.

Manteision – bydd cyfle i'r gymdeithas ddatblygu mentoriaid newydd; mae'n ddelfrydol i gymdeithas lle mae nifer bach o wenynwyr profiadol sy'n gallu rhoi o'u hamser a mwy o bobl sydd ond wedi cadw gwenyn ers ychydig o flynyddoedd.

Anfanteision – byddai angen i'r gwenynwr profiadol sy'n rhoi cymorth gydbwyso gofynion y grwpiau. Gallai'r gydberthynas rhwng y gwenynwr canolraddol a'r gwenynwr profiadol fynd dan straen os nad yw'n glir pryd mae angen ymyrryd.

**Model Paned a Phwyntiau**

Gellid rhoi cymorth ar ffurf “sesiwn holi ac ateb”, naill ai'n wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau rhithwir. Gall cwestiynau gael eu gofyn ymlaen llaw neu mewn amser real yn y digwyddiad (neu gymysgedd o'r ddau). Efallai y byddai sesiynau galw heibio yn gweithio'n dda hefyd. Byddai panel o wenynwyr profiadol yn ateb y cwestiynau a godir gan wenynwyr newydd ac yn eu cyfeirio at adnoddau defnyddiol, e.e. sianel YouTube yr Uned Wenyn Genedlaethol. Wrth i wenynwyr canolraddol fagu hyder dros amser, gallant ymuno â'r panel i ddatblygu sgiliau a allai eu galluogi i ddod yn fentoriaid yn y dyfodol. Gallai'r panel newid fel y gallai gwenynwyr profiadol ddewis faint o amser y gallant ei roi.

Anfanteision – byddai angen i bob gwenynwr profiadol wneud ymrwymiad amser cyfyngedig a phenodol. Mae'n cynnwys elfen o gymorth pwrpasol gan y byddai'r cwestiynau yn cael eu codi gan y gwenynwyr newydd am y problemau y maent yn eu hwynebu. Mae'n meithrin rhwydwaith o wenynwyr newydd. Gall fod yn beth hawdd i'w ychwanegu at raglenni cymorth eraill.

Anfanteision – mae'n gofyn am gymorth logistaidd (llogi ystafell) os yw'n digwydd wyneb yn wyneb neu allu technegol os yw'n rhithwir. Os na chaiff y sesiwn ei chynnal mewn gwenynfa efallai na fydd elfen o gymorth o amgylch cwch gwenyn.

Atodiad

Pwyntiau i'w hystyried wrth ddechrau cydberthynas fentora:

- Ble byddwch yn cyfarfod â'ch gilydd?
  - Gwenynfa'r mentai
  - Gwenynfa'r mentor
  - Gwenynfa'r gymdeithas
  - Drwy ddulliau rhithwir
  - Arall

- Faint o amser y gall y mentor ei gynnig? Oriau yr wythnos/mis/tymor

- Faint o amser y gall y mentai ei roi? Oriau yr wythnos/mis/tymor

- A oes unrhyw ddiwrnodau/amseroedd i'w hosgoi? A oes unrhyw gyfnod estynedig o amser, e.e. gwyliau, pryd na fydd modd cyfarfod?

- A yw'r mentor yn fodlon i'r mentai gysylltu ar fyr rybudd os bydd problem gyda'r cwch gwenyn? (a oes unrhyw ddiwrnodau/amseroedd i'w hosgoi?)

- Nodau a phynciau o ddiddordeb i'r mentai (h.y. a oes sgiliau penodol y mae'r mentai yn dymuno eu datblygu – megis magu brenhines neu adnabod clefyd)

- Hyd disgwyliedig y cyfnod mentora

- Unrhyw ddisgwyliadau/cyfyngiadau/addasiadau rhesymol eraill? (symudedd, trafnidiaeth)

- Dylid cytuno beth i'w wneud os bydd y naill barti neu'r llall yn teimlo nad yw'r gydberthynas fentora yn gweithio.

**National Bee Unit**
APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,
Sand Hutton, York YO41 1LZ
Telephone: 03003030094 email: nbu@apha.gov.uk
Web site: www.nationalbeeunit.com

December 2023

© Crown copyright 2023

You may re-use this information (excluding logos) free of charge in any format or medium, under the terms of the Open Government Licence v.3. To view this licence visit www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ or email PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk